

Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol Dinas Bae Abertawe

Cylchlythyr

Rhifyn 03 (*Mehefin 2017*)



Yn y Rhifyn Hwn

- **Gweithdy Rhanbarthol**
- **Raglen Iwerddon Cymru**
- **Cynllun Rheoli Cynaliadwy**
- **Arloesi SMART**
- **Cyflymu Cymru**
- **Prosiect BUCANIER**

Sut y gall Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol Bae Abertawe helpu?

Mae'r Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol yma i gefnogi prosiectau yn y rhanbarth a gweithio gydag arweinwyr prosiect i rannu arferion da rhwng prosiectau.

Beth am roi gwybod inni am rai o'ch straeon newyddion da – anfonwch e-bost atom a gallwn ni gynnwys eich prosiect yn y llythyr newyddion nesaf.

Rydym yn awyddus i drefnu gweithdai yn y rhanbarth i rannu gwybodaeth newydd. Os oes gennych unrhyw feysydd diddordeb penodol yr hoffech inni drefnu gweithdy yn eu cylch anfonwch e-bost atom – smnicholls@sirgar.gov.uk

Y Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol yn cynnal Gweithdy Rhanbarthol

Trefnodd Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol Bae Abertawe weithdy gwybodaeth ar gyfer Grŵp Cyflogadwyedd Bae Abertawe sy'n cynnwys cynrychiolwyr o awdurdodau lleol, sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach ac amrywiol sefydliadau eraill sydd â diddordeb yn yr agenda cyflogadwyedd.

Roedd y gweithdy yn rhoi gwybodaeth am Gynllun Cyflogadwyedd i Gymru Llywodraeth Cymru, a fydd yn nodi sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ail-lunio cymorth o ran cyflogadwyedd ar gyfer unigolion sy'n barod ar gyfer gwaith a'r rheiny sydd bellaf o'r farchnad lafur. Rhoddwyd gwybod i'r rhai oedd yn bresennol mai'r nod yw cyflawni hyn drwy ddarparu rhagor o gyflogaeth, gwella safonau byw, lleihau'r bwlch o ran sgiliau a lleihau'r amrywiad ledled Cymru.

Roedd yr aelodau o'r grŵp yn ystyried hyn yn gyfle gwych i drafod y cynllun ac ymgysylltu'n uniongyrchol â datblygwyr y cynllun ac mae'r grŵp yn edrych ymlaen at yrru'r agenda hon yn ei blaen. Yn ogystal roedd modd i'r grŵp drafod a rhannu gwybodaeth gyda'i gilydd ynghylch sut y byddai'r rhaglen newydd yn gweithio gyda rhaglenni presennol ac unrhyw faterion a allai godi.

Cynhelir y gweithdy nesaf ym mis Gorffennaf ac yn ystod y sesiwn bydd y grŵp yn dysgu mwy am brosiectau newydd sy'n cael cyllid, ac yn cael diweddariad ynghylch y Cynllun Cyflogadwyedd a Chymunedau yn Gyntaf.

Cyllid ar gael drwy raglen Iwerddon Cymru

Mae €9.6m o gyllid yr UE ar gael ar gyfer cynigion trawsffiniol i gynyddu potensial asedau adnoddau naturiol a diwylliannol Iwerddon a Chymru i helpu i gynyddu nifer yr ymwelwyr â chymunedau arfordirol.

Mae'r flaenoriaeth hon gan y rhaglen yn tynnu sylw at y cysylltiadau rhwng yr economi a thwristiaeth, treftadaeth a'r amgylchedd naturiol. Mae'n dod ag arbenigedd o'r ddwy genedl ynghyd ar gyfer bodloni'r heriau sy'n cael eu rhannu ganddynt a'r cyfleoedd sy'n deillio o'r ffin sy'n cael ei rhannu gennym ar Fôr Iwerddon.

Bydd angen i'r cynigion gynnwys un neu ragor o'r elfennau canlynol:

- Sefydlu neu ddatblygu rhwydwaith, platform, porthol neu strategaeth ar gyfer cydweithio
- Trosglwyddo neu fabwysiadu gwybodaeth, arbenigedd, technolegau neu arferion gorau
- Galluogi neu baratoi'r ffordd ar gyfer buddsoddi yn dylunio, datblygu, treialu neu gyflawni prosesau, cynnyrch, astudiaethau neu wasanaethau newydd
- Buddsoddi ar raddfa fach lle y gellir dangos bod yna werth ychwanegol trawsffiniol a chydymffurfedd ag amcanion y Rhaglen

Rhaid bod gan bob prosiect o leiaf un partner o Iwerddon ac un o Gymru gyda 6 partner yn cydweithio ar y mwyafrwyd.

5pm ar 28 Gorffennaf 2017 yw'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cynnig.

I gael rhagor o wybodaeth, cliciwch [yma](#)

Cynllun Rheoli Cynaliadwy

Bydd y cynllun Datblygu Cynaliadwy yn cynnig cymorth ariannol ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau a fydd yn gwella'r ffordd y caiff ein hadnoddau naturiol eu rheoli a chyfrannu at les ein cymunedau gwledig.

Mae'r cynllun yn cynnig grantiau i grwpiau cydweithredol sydd am:

- Gwella ein hadnoddau naturiol e.e. pridd, dwr, coetiroedd a storio carbon
- Gwella bioamrywiaeth a rheoli cynefinoedd, rheoli ucheldiroedd a rheoli mawn
- Cymryd camau i wella cyfleoedd mynediad a hamdden
- Cynyddu seilwaith gwyrdd a draenio trefol

Mae'r trydydd cyfnod ymgeisio yn agor ar 10fed Gorffennaf 2017 a cau a'r y 5ed o Fedi

I gael rhagor o wybodaeth, cliciwch [yma](#)

Arbenigwyr Gwasanaeth Arloesi SMART

Mae Smart Innovation yn darparu cymorth ymgynghorol am ddim i fusnesau ledled Cymru sydd am wella eu cystadleurwyd.

Yn rhan o becyn newydd o gymorth SMART gyda chefnogaeth cyllid Ewropeaidd, mae'r Gwiriad Iechyd ar gael i fusnesau bach a chanolig a sefydliadau mawr mewn sawl sector, gan gynnwys gweithgynhyrchu cyffredinol, peirianeg, ynni, TGCh, digidol, bwyd a diod, electroneg, meddygaeth/gofal iechyd, adeiladu a gwasanaethau ariannol.

I gael rhagor o wybodaeth, cliciwch [yma](#)

Cynlluniau ar gyfer cam nesaf y rhaglen yn mynd yn eu blaenau - adeiladu ar lwyddiant Cyflymu Cymru

Mae gan fusnesau, cartrefi a chymunedau gyfle i gymryd rhan mewn ymgynghoriad ar gam nesaf cyflwyno'r cynllun band eang cyflym iawn yng Nghymru.

Mae prosiect Cyflymu Cymru Llywodraeth Cymru yn parhau i ddatblygu'n foddhaol. Ar ddiwedd Mawrth roedd 645,000 o safleoedd ledled Cymru wedi cael mynediad i ffibr cyflym o ganlyniad i'r rhaglen. Mae BT wedi cadarnhau eu bod yn disgwyl darparu cyflymder lawrlwytho o 30Mbps i oddeutu 690,000 o safleoedd cyn i'r rhaglen ddod i ben ar ddiwedd Rhagfyr 2017.

Bydd yr ymgynghoriad yn llywio cam nesaf y cynllun sydd i ddigwydd ddechrau 2018 er mwyn cyrraedd yr ychydig safleoedd olaf anodd eu cyrraedd. Mae wedi nodi rhestr o dros 98,000 o safleoedd. Bydd y cynllun yn derbyn cymorth cyllid y sector cyhoeddus o oddeutu £80 miliwn.

I gael rhagor o wybodaeth, cliciwch [yma](#)

Prosiect BUCANIER gwerth €2.9 miliwn

Cynllun gwerth €2.9 miliwn a ariennir gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop yw BUCANIER sef Adeiladu Cystyrau a Rhwydweithiau o ran Arloesedd, Menter ac Ymchwil er mwyn cefnogi busnesau bach yn Iwerddon a Chymru.

Fel rhan o brosiect BUCANIER bydd Sefydliad Technoleg Carlow, Bord Iascaigh Mhara (BIM) a Chyngor Sir Wexford yn Iwerddon a Phrifysgol Abertawe a Chynghorau Sir Caerfyrddin a Phenfro yng Nghymru yn ymuno â'i gilydd i roi hwb i fasnach a darparu cymorth arbenigol er mwyn helpu busnesau bach i ddylunio a datblygu gwasanaethau a chynnyrch newydd. Bydd y prosiect yn gweithio mewn sectorau twf allweddol o ran economïau Cymru ac Iwerddon, gan gynnwys bwyd a diod, gwyddorau bywyd ac ynni adnewyddadwy.

Yn ogystal fel rhan o'r prosiect bydd y partneriaid yn cynnig dosbarthiadau meistr mewn arloesedd, mentora busnesau a chreu rhwydweithiau newydd rhwng Cymru ac Iwerddon sydd â'r nod o helpu busnesau yn yr un sectorau i rannu gwybodaeth, gwella masnach drawsffiniol a chreu swyddi newydd.

Bydd BUCANIER, sy'n cael ei baratoi ar hyn o bryd, yn dechrau darparu ym mis Medi 2017. Disgwylir i oddeutu 120 o fusnesau Cymru ac Iwerddon elwa ar brosiect BUCANIER dros y tair blynedd nesaf. Caiff prosiect BUCANIER ei ariannu'n rhannol drwy Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop fel rhan o raglen cydweithredu Iwerddon - Cymru, sy'n helpu i gryfhau cysylltiadau economaidd a chydweithredu rhwng y ddwy wlad.

Cysylltwch a ni

Tim Ymgysylltu Rhanbarthol Dinas Bae Abertawe,
Business Resource Centre,
Parc Amanwy,
Ammanford.
SA18 3EP

01554 742473 / swanseabayret@sirgar.gov.uk

